## Cefndir

**Caerdydd Ddwyieithog 2022-27:**
**Diwygiad i'r Strategaeth 5 Mlynedd Hybu'r Gymraeg**

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i hybu a datblygu'r Gymraeg i wireddu ei weledigaeth o wneud Caerdydd yn brifddinas wirioneddol ddwyieithog. Un o ofynion statudol safonau'r Gymraeg yw creu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd a fydd yn nodi sut y byddwn yn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghaerdydd. Cyhoeddwyd y Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog gyntaf yn 2017 ac mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 yn cynrychioli ei diwygiad cyntaf a datblygiad pellach ar ei hamcanion a'i chamau gweithredu cychwynnol.

Mae strategaeth 2022-27 wedi'i pharatoi i gefnogi nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'n dilyn tair prif thema Cymraeg 2050 ac yn cynnwys targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2027. Mae'r strategaeth yn cynnig nifer o amcanion penodol ychwanegol i gefnogi, hwyluso a hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r strategaeth hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r nodau lles a gynhwysir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 – *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu* a'r amcanion a ddisgrifir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-32 y Cyngor.

Ein nod yw cwblhau a chyflwyno'r strategaeth ddiwygiedig ddrafft a'r cynllun gweithredu cysylltiedig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus erbyn dechrau mis Hydref 2021. Er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn uchelgeisiol ac yn bellgyrhaeddol yn ei hamcanion i gefnogi a datblygu'r Gymraeg hoffem ymgynghori â staff Caerdydd - gan gynnwys uwch reolwyr, swyddogion polisi, aelodau, cydlynwyr a hyrwyddwyr y Gymraeg, siaradwyr Cymraeg a dysgwyr - er mwyn sicrhau bod y Strategaeth yn bodloni ei phrif nod sef cynyddu nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd dros y 5 mlynedd nesaf yn unol â'n rhwymedigaethau statudol. Dyma gyfle gwych i staff ystyried y ffordd orau o hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg yng Nghaerdydd a chefnogi gweledigaeth y Cyngor o weld Caerdydd wirioneddol ddwyieithog.

DRAFT

## Methodoleg

- Datblygwyd yr arolwg ar y cyd rhwng Tîm Caerdydd Ddwyieithog a Chanolfan Ymchwil Caerdydd.
- Hyrwyddwyd yr arolwg i weithwyr y Cyngor drwy'r Fewnrwyd a Gwybodaeth i Staff.
- Darparwyd yr holiadur yn ddwyieithog.


## Canfyddiadau'r Ymchwil

Ar ôl glanhau a dilysu'r data, cafwyd 543 o ymatebion i Arolwg Staff Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog.

## Ym mha Gyfarwyddiaeth ydych chi'n gweithio?

*Cafwyd 541 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gan roi cyfradd ymateb o 99.6%.*

Roedd tua un o bob chwe ymatebydd yn gweithio naill ai yn Addysg a Dysgu Gydol Oes neu Tai a Chymunedau (17.6% ac 16.8% yn y drefn honno).




DS: Dylid bod yn ofalus gyda meintiau sylfaen isel.

## Ydych chi'n siarad Cymraeg?

*Cafwyd 543 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gan roi cyfradd ymateb o 100.0%.*

Y tri maes â'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg oedd Addysg a Dysgu Gydol Oes (21), Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol (17) a Tai a Chymunedau (14).

| | Ydw | Nac ydw |
|---|---|---|
| Yn gyffredinol (Sylfaen: 543) | 112 | 431 |
| Addysg a Dysgu Gydol Oes (Sylfaen: 95) | 21 | 74 |
| Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol (Sylfaen: 54) | 17 | 37 |
| Tai a Chymunedau (Sylfaen: 91) | 14 | 77 |
| Datblygu Economaidd (Sylfaen: 46) | 10 | 36 |
| Perfformiad a Phartneriaethau (Sylfaen: 20) | 9 | 11 |
| Gwasanaethau Oedolion (Sylfaen: 35) | 7 | 28 |
| Gwasanaethau Plant (Sylfaen: 35) | 6 | 29 |
| Llywodraethu a Chyfreithiol (Sylfaen: 28) | 6 | 22 |
| Cyllid (Sylfaen: 37) | 5 | 32 |
| Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd (Sylfaen: 51) | 5 | 46 |
| Ddim yn gwybod (Sylfaen: 543) | 5 | 10 |
| Adnoddau Dynol (Sylfaen: 28) | 5 | 23 |
| Arall | 2 | 4 |

DS: Dylid bod yn ofalus gyda meintiau sylfaen isel.

DRAFT

## Ydych chi'n ddysgwr Cymraeg?

*Cafwyd 542 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gan roi cyfradd ymateb o 99.8%.*
Ar y cyfan roedd 98 o ymatebwyr wrthi'n dysgu Cymraeg - mae'r ffigur hwn yn gostwng i 24 ar gyfer Addysg a Dysgu Gydol Oes a 18 ar gyfer Tai a Chymunedau.

| | Ydw | Nac ydw |
|---|---|---|
| Yn gyffredinol (Sylfaen: 542) | 98 | 444 |
| Addysg a Dysgu Gydol Oes (Sylfaen: 95) | 24 | 71 |
| Tai a Chymunedau (Sylfaen: 91) | 18 | 73 |
| Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol (Sylfaen: 54) | 10 | 44 |
| Gwasanaethau Oedolion (Sylfaen: 35) | 7 | 28 |
| Gwasanaethau Plant (Sylfaen: 35) | 7 | 28 |
| Adnoddau Dynol (Sylfaen: 28) | 7 | 21 |
| Cyllid (Sylfaen: 37) | 5 | 32 |
| Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd (Sylfaen: 51) | 5 | 46 |
| Llywodraethu a Chyfreithiol (Sylfaen: 28) | 5 | 23 |
| Datblygu Economaidd (Sylfaen: 46) | 5 | 41 |
| Ddim yn gwybod (Sylfaen: 14) | 3 | 11 |
| Arall | 1 | 5 |

DS: Dylid bod yn ofalus gyda meintiau sylfaen isel.

DRAFT

## Ydych chi wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg?

*Cafwyd 541 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gan roi cyfradd ymateb o 99.6%.*
Roedd 205 o'r ymatebwyr wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg. Roedd dros hanner yr ymatebwyr o Addysg a Dysgu Gydol Oes (48) wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant Cymraeg, mae'r ffigur hwn yn gostwng i 35 ar gyfer Tai a Chymunedau.

| | Ydw | Nac ydw |
|---|---|---|
| Yn gyffredinol (Sylfaen: 541) | 205 | 336 |
| Addysg a Dysgu Gydol Oes (Sylfaen: 95) | 48 | 47 |
| Tai a Chymunedau (Sylfaen: 91) | 35 | 56 |
| Datblygu Economaidd (Sylfaen: 46) | 19 | 27 |
| Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd (Sylfaen: 51) | 16 | 35 |
| Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol (Sylfaen: 54) | 15 | 39 |
| Gwasanaethau Plant (Sylfaen: 35) | 14 | 21 |
| Llywodraethu a Chyfreithiol (Sylfaen: 28) | 12 | 16 |
| Cyllid (Sylfaen: 37) | 11 | 26 |
| Gwasanaethau Oedolion (Sylfaen: 35) | 10 | 25 |
| Adnoddau Dynol (Sylfaen: 28) | 10 | 18 |
| Perfformiad a Phartneriaethau (Sylfaen: 20) | 9 | 11 |
| Ddim yn gwybod (Sylfaen: 14) | 5 | 9 |
| Arall | 1 | 5 |

DS: Dylid bod yn ofalus gyda meintiau sylfaen isel.

DRAFT

## Oes gennych chi ddiddordeb mewn derbyn hyfforddiant Cymraeg?

*Cafwyd 540 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gan roi cyfradd ymateb o 99.4%.*
Roedd y diddordeb ar ei uchaf yn Addysg a Dysgu Gydol Oes gyda 54 yn mynegi eu bod yn barod i dderbyn hyfforddiant Cymraeg. Nesaf ar y rhestr roedd Tai Chymunedau gyda 38 o ymatebwyr a'r Gwasanaethau Oedolion gyda 21.

I gyd, mae gan 225 o ymatebwyr ddiddordeb mewn derbyn hyfforddiant Cymraeg.

| | Oes | Nac oes |
|---|---|---|
| Yn gyffredinol (Sylfaen: 540) | 225 | 315 |
| Addysg a Dysgu Gydol Oes (Sylfaen: 95) | 54 | 41 |
| Tai a Chymunedau (Sylfaen: 91) | 38 | 53 |
| Gwasanaethau Oedolion (Sylfaen: 35) | 21 | 14 |
| Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd (Sylfaen: 51) | 19 | 32 |
| Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol (Sylfaen: 54) | 17 | 37 |
| Gwasanaethau Plant (Sylfaen: 34) | 16 | 18 |
| Llywodraethu a Chyfreithiol (Sylfaen: 28) | 15 | 13 |
| Datblygu Economaidd (Sylfaen: 46) | 11 | 35 |
| Cyllid (Sylfaen: 37) | 10 | 27 |
| Adnoddau Dynol (Sylfaen: 28) | 10 | 18 |
| Ddim yn gwybod (Sylfaen: 14) | 7 | 7 |
| Perfformiad a Phartneriaethau (Sylfaen: 20) | 6 | 14 |
| Arall | 1 | 5 |

DS: Dylid bod yn ofalus gyda meintiau sylfaen isel.

DRAFT

## Beth yw eich gweledigaeth chi o Gaerdydd wirioneddol ddwyieithog?

Gofynnwyd i'r ymatebwyr, 'Beth yw eich gweledigaeth chi o Gaerdydd wirioneddol ddwyieithog?' – derbyniwyd 454 o sylwadau a daeth 16 thema i'r amlwg pan ddadansoddwyd y sylwadau hyn. Dyma fanylion y tair thema uchaf a sylwadau enghreifftiol: - (Ceir rhestr lawn o themâu gyda sylwadau enghreifftiol yn Atodiad A).

| Thema | Nifer | % | Sylwadau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| **Pawb yn siarad / dysgu Cymraeg** | **152** | **33.5** | • "Mae pawb yn gallu siarad Cymraeg ar ryw lefel."<br>• "Lle gall pawb ac unrhyw un ddysgu i siarad Cymraeg."<br>• "Byddai Caerdydd wirioneddol ddwyieithog yn un lle mae pawb sy'n byw yma yn ddwyieithog neu â rhywfaint o allu yn yr iaith."<br>• "Mae pawb yn cael digon o wersi iaith lafar i sgwrsio'n hyderus yn y Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio fel grym i uno'r genedl ac mae pob Cymro a Chymraes yn falch o'i siarad a chymryd perchnogaeth ohoni."<br>• "Ry'n ni i gyd yn gallu deall a chyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg." |
| **Statws cyfartal rhwng ieithoedd** | **111** | **24.44** | • "Mae gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal."<br>• "Sicrhau bod y Gymraeg/Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal."<br>• "Dinas lle gellir defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn llawn ar gyfer popeth."<br>• "Lle mae ddwy iaith ar gael fel cynnig cychwynnol yn hytrach nag fel gwasanaeth ychwanegol."<br>• "Cymraeg a Saesneg 50/50." |
| **Mynediad da i'r Gymraeg** | **99** | **21.8** | • "Lle gall pawb ac unrhyw un ddysgu i siarad Cymraeg."<br>• "Lle mae'r gallu i gyfnewid rhwng ieithoedd yn hawdd ac esmwyth yn ôl yr achlysur."<br>• "Un lle gellir cael gafael ar bob gwasanaeth yn gyfartal, yn y naill iaith neu'r llall."<br>• "Mae'n bosib cael mynediad at bob gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg." |

## Mae strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn dilyn Cymraeg 2050 ac yn cynnig tair prif thema ar gyfer hybu'r Gymraeg. Mae'r themâu hyn wedi'u rhannu ymhellach yn feysydd gwaith. Graddiwch y meysydd gwaith ym mhob thema yn ôl trefn blaenoriaeth.

### *Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg*


*Cafwyd 425 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gan roi cyfradd ymateb o 78.3%.*

Yna gofynnwyd i ymatebwyr sgorio'r gwahanol bynciau o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd o un i bump.

Cyfrifwyd sgoriau drwy roi pum pwynt am bob tro yr enwyd pwnc yn y safle cyntaf, pedwar pwynt am ail, tri phwynt am drydydd, dau bwynt am bedwerydd, ac un pwynt am bumed. Cyfunwyd y rhain ar gyfer pob thema a'u rhannu â chyfanswm yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, er mwyn rhoi sgôr terfynol.

"Y blynyddoedd cynnar" oedd y pwysicaf, gyda 40.2% o'r ymatebwyr yn rhoi hwn yn y safle cyntaf, gyda sgôr cyffredinol o 3.7 allan o bump.

"Addysg statudol" oedd yn ail, gyda sgôr cyfartalog o 3.5 allan o 5. Cafodd ei roi yn y safle cyntaf gan 31.8% o ymatebwyr.




*Mae'r siart uchod yn dangos y gyfran o bleidleisiau safle 1af, 2il safle a 3ydd safle ar gyfer pob pwnc, ynghyd â'r sgôr cyffredinol (allan o 5).*

## Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg


*Cafwyd 421 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gan roi cyfradd ymateb o 77.5%.*

Yna gofynnwyd i ymatebwyr sgorio'r gwahanol feysydd o ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o un i dri.

Cyfrifwyd sgoriau drwy roi tri phwynt am bob tro yr enwyd pwnc yn y safle cyntaf, dau bwynt am ail, ac un pwynt am drydydd. Cyfunwyd y rhain ar gyfer pob thema a'u rhannu â chyfanswm yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, er mwyn rhoi sgôr terfynol.

"Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg" oedd y thema bwysicaf, gyda 36.6% o'r ymatebwyr yn rhoi hyn yn y safle cyntaf, gyda sgôr cyffredinol o 2.1 allan o dri.

"Gwasanaethau" oedd yn ail, gyda sgôr cyfartalog o 2.1 allan o 3. Cafodd ei roi yn y safle cyntaf gan 33.5% o ymatebwyr.




*Mae'r siart uchod yn dangos y gyfran o bleidleisiau safle 1af, 2il safle a 3ydd safle ar gyfer pob pwnc, ynghyd â'r sgôr cyffredinol (allan o 3).*

## Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

*Cafwyd 391 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gan roi cyfradd ymateb o 72.0%.*

Yna gofynnwyd i ymatebwyr sgorio elfennau ar gyfer gwella seilwaith a chyd-destun y Gymraeg o un i saith.

Cyfrifwyd y sgoriau fel isod:-


| Sgôr | Pwyntiau |
|---|---|
| 1af | 7 |
| 2il | 6 |
| 3ydd | 5 |
| 4ydd | 4 |
| 5ed | 3 |
| 6ed | 2 |
| 7fed | 1 |

Cyfunwyd y rhain ar gyfer pob thema a'u rhannu â chyfanswm yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, er mwyn rhoi sgôr terfynol.

"Diwylliant a'r Cyfryngau" oedd y thema bwysicaf, gyda 32.0% o'r ymatebwyr yn rhoi hyn yn y safle cyntaf, gyda sgôr cyffredinol o 5.0 allan o 7.

"Cymuned a'r economi" oedd yn ail, gyda sgôr cyfartalog o 4.5 allan o 7. Cafodd ei roi yn y safle cyntaf gan 24.8% o ymatebwyr.

Cafodd "Gwerthuso ac ymchwil" ei sgorio'n 1af gan 16.1% o'r ymatebwyr, gyda sgôr cyfartalog o 3.9 allan o 7.




DRAFT

*Mae'r siart uchod yn dangos y gyfran o bleidleisiau safle 1af, 2il safle a 3ydd safle ar gyfer pob pwnc, ynghyd â'r sgôr cyffredinol (allan o 7).*

## Pa gamau y dylai'r Cyngor eu cymryd er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd y targed ar gyfer cynyddu nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn unol â Cymraeg 2050?

Gofynnwyd i ymatebwyr, 'Pa gamau y dylai'r Cyngor eu cymryd er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd y targed ar gyfer cynyddu nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn unol â Cymraeg 2050?' – derbyniwyd 313 o sylwadau a daeth 12 thema i'r amlwg pan ddadansoddwyd y sylwadau hyn. Dyma fanylion y tair thema uchaf a sylwadau enghreifftiol: - (Ceir rhestr lawn o themâu gyda sylwadau enghreifftiol yn Atodiad B).

| Thema | Nifer | % | Sylwadau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| **Mwy o gyllid/cymorth ar gyfer hyfforddiant yn y gwaith neu gartref** | **152** | **48.6** | • "Mwy o arian i ddarparu'r hyfforddiant, ond rhaid i'r hyfforddiant hwn fod yn wirfoddol."<br>• "Annog pob aelod o staff i fynychu cyrsiau Cymraeg i ddysgu'r iaith. Mae angen mwy o leoedd ar y cwrs ac mae angen i fwy nag un cwrs o bob math redeg ar yr un pryd. Felly, y cwrs lefel un ar ddydd Llun AM, dydd Mawrth PM, dydd Mercher AM, dydd Iau PM, dydd Gwener AM ac ati."<br>• "Gosod athrawon Cymraeg peripatetig mewn pob Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu haddysgu'n Gymraeg gan siaradwr Cymraeg cwbl hyderus, o leiaf unwaith yr wythnos, ochr yn ochr â gwersi Cymraeg ac ymarfer Gymraeg achlysurol dan arweiniad eu hathrawon dosbarth arferol. Yn anffodus, nid yw pob Pennaeth yn cefnogi addysg Gymraeg gymaint ag y maen nhw'n esgus, ac mae hyn yn golygu bod staff yn aml yn cael eu hatal rhag mynychu hyfforddiant hanfodol neu brynu'r adnoddau Cymraeg diweddaraf ar gyfer eu disgyblion."<br>• "Darparu cyrsiau Cymraeg am ddim i holl ddinasyddion Caerdydd."<br>• "Rhowch arian i gynnig hyfforddiant gydol oes." |
| **Mwy o ymwneud ag addysg / y genhedlaeth iau** | **71** | **22.7** | • "Gwneud buddsoddiadau i gefnogi dysgu Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar a chefnogi teuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg."<br>• "Cynnig mwy o gyrsiau ar lefel llinell sylfaen. Cefnogi pob ysgol a buddsoddi mewn dysgu'r Gymraeg yn ifanc!"<br>• "Sicrhau hyfforddiant i staff mewn ysgolion." |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • "Ehangu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn uchelgeisiol ac yn synhwyrol a pheidio â chaniatáu i agweddau negyddol newid cyfeiriad yr holl waith gwych y mae'r ddinas wedi'i gyflawni dros y blynyddoedd."<br>• "Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ystod plentyndod cynnar a thrwy gydol y blynyddoedd ysgol gorfodol, er mwyn sicrhau sylfaen gref o Gymraeg llafar o fewn y gymuned." |
| **Gwell hyrwyddo** | **34** | **16.9** | • "Cael gwersi/cyrsiau Cymraeg o ansawdd uchel am ddim ar wefan y Cyngor/YouTube - ar gael am ddim fel bod pawb yn gallu eu defnyddio i ddysgu i siarad Cymraeg ar lefel dechreuwr a chanolradd. Gair yr wythnos - defnyddiwch y cyfryngau cymdeithasol / bysus / hysbysfyrddau / negeseuon testun / e-bost - crëwch fwrlwm o gwmpas dysgu Cymraeg - gwnewch e'n cŵl - defnyddiwch y teledu - dewch o hyd i rywun (enwog?) sydd am ddysgu tipyn a mynd â Chaerdydd ar e.e. taith 4 wythnos gyda nhw i ddysgu i gael sgwrs sylfaenol am wahanol bynciau."<br>• "Parhau i hybu a chynnig yr iaith ym mhob rhan o'i wasanaethau."<br>• "Marchnata'r fenter i sicrhau bod y neges yn cael ei chyflwyno i fwy o'r gymuned a gwerthu'r manteision o ddysgu'r iaith i unigolion." |
| **Annog staff i siarad Cymraeg yn ystod gwaith** | **34** | **16.9** | • "Cyflogi mwy o staff sy'n siarad Cymraeg. Annog defnydd ymarferol o'r Gymraeg mewn amgylchedd gwaith."<br>• "Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle."<br>• "Hyrwyddo sgyrsiau anffurfiol rhwng swyddogion i ddatblygu hyder dysgwyr a'r rhai sy'n brin o hyder." |

## Sut dylai'r Cyngor gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau Cymraeg a sicrhau bod dinasyddion Caerdydd yn derbyn gwasanaethau yn unol â'u dewis iaith?

Gofynnwyd i ymatebwyr, 'Sut dylai'r Cyngor gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau Cymraeg a sicrhau bod dinasyddion Caerdydd yn derbyn gwasanaethau yn unol â'u dewis iaith?' – derbyniwyd 301 o sylwadau a daeth 13 thema i'r amlwg pan ddadansoddwyd y sylwadau hyn. Dyma fanylion y tair thema uchaf a sylwadau enghreifftiol: - (Ceir rhestr lawn o themâu gyda sylwadau enghreifftiol yn Atodiad C).

| Thema | Nifer | % | Sylwadau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| **Cyflwyno mwy o hyfforddiant** | **81** | **26.9** | • "Rhoi mwy o gyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg ac annog rheolwyr i adael i weithwyr ddysgu."<br>• "Sicrhau mwy o hyfforddiant, a mwy o gyngor i'r di-Gymraeg ar beth i'w wneud os oes angen iddyn nhw gynnig gwasanaeth Cymraeg."<br>• "Hyfforddi mwy o staff yn y Gymraeg y tu allan i oriau gwaith - mae llwyth gwaith uwch a llai o staff yn golygu bod staff yn gorfod dewis rhwng syrthio ar ei hôl hi gyda'u gwaith a dysgu Cymraeg."<br>• "Cynyddu nifer staff y cyngor sy'n dysgu i siarad Cymraeg."<br>• "Sicrhau bod hyfforddiant Cymraeg yn rhan o Adolygiadau Personol. Cyflogi mwy o siaradwyr dwyieithog." |
| **Cyflogi mwy o siaradwyr Cymraeg** | **51** | **16.9** | • "Cyflogi mwy o siaradwyr Cymraeg (neu bobl sy'n fodlon dysgu) pan fydd swyddi'n dod yn wag."<br>• "Drwy gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg."<br>• "Annog pob gwasanaeth i sicrhau bod o leiaf 10% o'u staff yn siarad Cymraeg yn rhugl."<br>• "Creu gweithlu sy'n gallu cyfathrebu'n ddwyieithog. Arolwg o siaradwyr Cymraeg ar draws y gweithlu i benderfynu ar y cymorth sydd ei angen i gynnig gwasanaethau'n Gymraeg ar gais. Hyfforddiant i siaradwyr Cymraeg sydd efallai wedi colli hyder neu sy'n dymuno gwella eu sgiliau ysgrifenedig yn y Gymraeg."<br>• "Cyflogi mwy o siaradwyr Cymraeg." |
| **Gofynnwch i bobl am eu dewisiadau** | **45** | **15.0** | • "System RhCC (Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid) ar draws y Cyngor fyddai'r ffordd orau o wneud hyn, lle byddai pob defnyddiwr gwasanaeth yn cofnodi ei ddewisiadau iaith, sy'n cael eu cadw a'u cofio ar gyfer pob gohebiaeth yn y dyfodol." |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • "Dylai sicrhau bod dinasyddion yn gallu cofrestru eu dewis iaith a derbyn gohebiaeth yn yr iaith honno YN UNIG, nid anfon gwybodaeth yn ddwyieithog yn awtomatig."<br>• "Drwy ofyn i ddinasyddion beth yw eu dewis iaith, a chofio eu dewis, a darparu gwybodaeth yn eu dewis iaith, yn hytrach na rhoi pethau dwyieithog i bawb." |

DRAFT

## A oes gennych unrhyw awgrymiadau neu argymhellion ar sut y dylai'r Cyngor weithio gyda phartneriaid allanol i gefnogi'r gwaith o gyflawni strategaeth Caerdydd Ddwyieithog ar gyfer 2022-27?

Gofynnwyd i ymatebwyr, 'A oes gennych unrhyw awgrymiadau neu argymhellion ar sut y dylai'r Cyngor weithio gyda phartneriaid allanol i gefnogi'r gwaith o gyflawni strategaeth Caerdydd Ddwyieithog ar gyfer 2022-27?' – derbyniwyd 198 o sylwadau a daeth 13 thema i'r amlwg pan ddadansoddwyd y sylwadau hyn.  Dyma fanylion y tair thema uchaf a sylwadau enghreifftiol:  - (Ceir rhestr lawn o themâu gyda sylwadau enghreifftiol yn Atodiad D).

| Thema | Nifer | % | Sylwadau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| **Cefnogi/cydweithio â phartneriaid/hyfforddiant/cyfieithu am ddim** | **47** | **23.7** | • "Cynnig help iddyn nhw.  Cyfraddau is ar gyfer costau cyfieithu os ydynt yn hysbysebu canran o'u swyddi fel rhai Cymraeg hanfodol ac yn hyrwyddo'r ffaith eu bod yn cynnig gwasanaeth/busnes dwyieithog."<br>• "Cynnig mynediad i bartneriaid allanol i rai o'r cyrsiau Cymraeg sydd ar gael i staff y cyngor."<br>• "Addysg yn y gweithle gyda chyflogwyr mawr neu i ystadau diwydiannol i gwmnïau nad ydynt yn gallu ei fforddio. Addysgu peripatetig efallai." |
| **Mwy o Hyfforddiant/Dysgu Cymraeg** | **42** | **21.2** | • "Mae'n rhaid buddsoddi'n sylweddol mewn adnoddau hyfforddiant iaith, p'un a yw'r rhain yn cael eu datblygu'n fewnol neu wedi'u his-gontractio i drydydd parti."<br>• "Cynnig cyrsiau y tu allan i Gaerdydd - nid yw pob aelod o staff yn byw yn y ddinas neu'r cyffiniau."<br>• "Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a gweithredu'r newidiadau sy'n annog dysgu Cymraeg." |
| **Ddim yn gwybod** | **34** | **17.2** | • "Mae'n ddrwg gen i, dydw i ddim yn gwybod digon am bartneriaid allanol tebygol."<br>• "Dydw i ddim yn deall beth yw hyn na phwy fyddai'r partneriaid."<br>• "Dim o gwbl." |

## Ydych chi'n gweithio gyda - neu'n ymwybodol o - unrhyw bartneriaid ychwanegol y gallem weithio gyda nhw fel rhan o strategaeth Caerdydd Ddwyieithog?

## Rhestrir partneriaid presennol Caerdydd Ddwyieithog yn Atodiad E

Gofynnwyd i ymatebwyr, 'Ydych chi'n gweithio gyda - neu'n ymwybodol o - unrhyw bartneriaid ychwanegol y gallem weithio gyda nhw fel rhan o strategaeth Caerdydd Ddwyieithog?' - derbyniwyd 71 o sylwadau a daeth 13 thema i'r amlwg wrth ddadansoddi'r sylwadau hyn a nodir isod gyda sylwadau enghreifftiol.

| Thema | Nifer | Sylwadau enghreifftiol |
|---|---|---|
| **3ydd Sector** | **17** | • "Cyngor Ieuenctid Caerdydd; The Sprout; Cymru Ifanc."<br>• "Wrap Cymru."<br>• "Cymdeithas Cymru-Ariannin." |
| **Addysg** | **16** | • "Prifysgol Met Caerdydd, Prifysgol Caerdydd."<br>• "Addysg Oedolion Cymru - Dysgu Oedolion Cymru - Coleg Cymunedol Cenedlaethol Cymru."<br>• "Cymraeg i Blant." |
| **Busnes** | **11** | • "Chapter. Busnesau preifat eraill."<br>• "Caerdydd AM BYTH."<br>• "Canolfan Dewi Sant"<br>• "Cei'r Fôr-forwyn"<br>• Clwb Ifor Bach, |
| **Llywodraeth / ALl** | **5** | • "Llywodraeth Cymru."<br>• "Gweithio'n agosach gydag awdurdodau cyfagos i sicrhau cysondeb o ran darpariaeth a negeseuon." |
| **Y Cyfryngau** | **4** | • "BBC/ITV Wales."<br>• "BBC Wales." |
| **Y GIG** | **4** | • "GIG Cymru." |
| **Chwaraeon** | **4** | • "Cyngor Chwaraeon Cymru." |
| **Ddim yn gwybod** | **3** | • "Does dim partneriaid ychwanegol yn dod i'r meddwl." |
| **Seiliedig ar Dechnoleg** | **3** | • "Apiau dysgu drwy ffonau symudol." |
| **Eisteddfod** | **3** | • "Yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd."<br>• "Eisteddfod" |
| **Sefydliadau Crefyddol** | **2** | • "Eglwysi a mannau addoli a neuaddau cymunedol cysylltiedig, grwpiau ac ati." |
| **Pob un ohonynt** | **1** | • "Pob un o'r isod." |

| | | |
|---|---|---|
| **Amr.** | **12** | • "Yn ymwybodol o bob un ond heb weithio gydag unrhyw un ohonynt."<br>• "Rwy'n gweithio i'r cyngor."<br>• "Rwy'n credu bod blaenoriaethau pwysicach y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt na chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg." |

DRAFT

## Unrhyw sylwadau eraill

Gofynnwyd i ymatebwyr, 'Unrhyw sylwadau eraill' – derbyniwyd 58 o sylwadau a daeth 13 thema i'r amlwg wrth ddadansoddi'r sylwadau hyn a nodir isod gyda sylwadau enghreifftiol.

| Thema | Nifer | Sylwadau enghreifftiol |
|---|---|---|
| **Blaenoriaethau ariannu eraill** | **11** | • "Rwy'n credu y byddai'n well i'r Cyngor flaenoriaethu ei effaith ar gydraddoldeb a'r agenda cryfhau teuluoedd dros bolisi iaith, gan ddyrannu adnoddau yn unol â hynny."<br>• "Byddai'n well gwario arian ar helpu teuluoedd a phlant mewn angen, gan wella addysg ac iechyd a seilwaith.  Mae diwylliant Cymru yn bwysig fel yr iaith, ond dylai fod yn ddewis." |
| **Dylai fod yn ddewis personol** | **10** | • "Cadwch hyn yn ddewis personol i bobl."<br>• "Er bod siarad Cymraeg yn ganmoladwy, ni ddylid ei orfodi ar bawb." |
| **Angen mwy o gefnogaeth** | **10** | • "Rwy'n gyn-athro Cymraeg 2il Iaith yng Nghaerdydd, ac ar ôl gweithio mewn ysgolion amrywiol, rwy'n teimlo mai'r prif rwystr i ddysgu/addysgu Cymraeg yw diffyg hyder staff yn bennaf.  Roedd Athro Cymraeg yn ymweld unwaith yr wythnos, ond stopiwyd hyn a oedd yn andwyol iawn, oherwydd mewn rhai ysgolion dyna oedd eu hunig fynediad i siaradwr Cymraeg rhugl am gyngor, cymorth ac ati."<br>• "Rwy'n athro ac yn gweithio yn yr adran addysg; mae gen i ddealltwriaeth sylfaenol o'r Gymraeg ond hoffwn i'r cyfle i ddysgu Cymraeg yn iawn." |
| **Ni ddylid gwahaniaethu yn eich erbyn os nad ydych yn siarad Cymraeg** | **8** | • "Ni ddylai neb deimlo'n llai gwerthfawr os ydyn nhw'n dewis peidio dysgu Cymraeg neu unrhyw iaith arall." |

| | | |
|---|---|---|
| **Cynnwys addysg** | **4** | • "Byddai dyfodol y Gymraeg yn cael ei gefnogi drwy ddechrau gydag addysg blynyddoedd cynnar hirdymor. Pan oedd y Gymraeg yn bwnc gorfodol mewn ysgolion roedd mwy o'r iaith yn cael ei defnyddio ar lafar. Mae'r iaith yn cael ei llywio gan gredoau diwylliannol y rhieni a chyn lleied o ysgolion Cymraeg sydd ar gael. Mae hyd yn oed plant a fynychodd feithrinfa Gymraeg yn gallu mynd ymlaen i ysgolion cynradd Cymraeg oherwydd y galw ar yr ychydig ysgolion arbenigol. Pe bai'r iaith yn cael ei hyrwyddo drwy bob rhan o addysg, byddem yn elwa." |
| **Hybu** | **3** | • "Pan gynhaliodd Caerdydd yr Eisteddfod Genedlaethol, gwnaeth ennyn llawer o ddiddordeb yn yr iaith ac roedd yna fwrlwm go iawn. Ceisiwch adeiladu ar y llwyddiant hwnnw - cynnal mwy o ddigwyddiadau dwyieithog ar draws cymunedau. Ceisiwch ymgysylltu â chymunedau lleol o bosib i wneud Gwyliau Nadolig eu pentrefi yn ddwyieithog. Rhowch becynnau gyda deunydd dwyieithog iddyn nhw ac ati." |
| **Sylwadau Partner** | **3** | • "Efallai y bydd angen ystyried creu partneriaethau gyda sefydliadau nad ydynt yn cael eu hystyried yn rhai naturiol o ran hyrwyddo'r Gymraeg e.e. Undeb Rygbi Cymru neu Croeso Caerdydd, a'u hannog i wneud y Gymraeg yn fwy amlwg i ymwelwyr â'r Ddinas a'u hannog i weithio gyda gwasanaethau'r Cyngor i gynnig darpariaeth ddwyieithog." |
| **Ieithoedd Eraill a Ddefnyddir yng Nghaerdydd** | **2** | • "Dydw i ddim yn anghytuno â'r ymdrech i gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg, ond rwy'n teimlo ei bod hi'n hen-ffasiwn peidio ag ystyried yr holl ieithoedd amrywiol." |
| **Cymhellion i Ddysgu** | **2** | • "Mae angen cymhelliant ychwanegol ar bobl i ddysgu Cymraeg. O wella'r dewis recriwtio yn unol â nodau'r Cyngor i gynnig taliad i ddysgwyr Cymraeg newydd. Iechyd da." |
| **Cymraeg ddim yn cael ei defnyddio yn y Gwaith** | **1** | • "O safbwynt gwaith, mae meysydd proffesiynol y Cyngor yn ymdrin yn bennaf ag ymgynghorwyr/contractwyr Saesneg eu hiaith." |
| **Amr.** | **10** | • "Rwy'n edmygu'r iaith Gymraeg yn fawr. Mae wedi gwneud yn rhyfeddol i oroesi a pharhau i fod yn iaith fyw. Fodd bynnag, dydw i ddim yn credu y gellir cyrraedd y targed hwn o 1m o siaradwyr."<br>• "Mae ymgynghoriad â'r undebau yn hanfodol... a dylai fod yn amserol." |

## Atodiad A

| Thema | Nifer | % | Sylwadau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| **Pawb yn siarad / dysgu Cymraeg** | **152** | **33.5** | • “Mae pawb yn gallu siarad Cymraeg ar ryw lefel."<br>• "Lle gall pawb ac unrhyw un ddysgu i siarad Cymraeg."<br>• "Byddai Caerdydd wirioneddol ddwyieithog yn un lle mae pawb sy’n byw yma yn ddwyieithog neu â rhywfaint o allu yn yr iaith."<br>• "Mae pawb yn cael digon o wersi iaith lafar i sgwrsio'n hyderus yn y Gymraeg. Mae’r Gymraeg yn cael ei defnyddio fel grym i uno'r genedl ac mae pob Cymro a Chymraes yn falch o’i siarad a chymryd perchnogaeth ohoni."<br>• "Ry’n ni i gyd yn gallu deall a chyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg." |
| **Statws cyfartal rhwng ieithoedd** | **111** | **24.44** | • “Mae gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal."<br>• "Sicrhau bod y Gymraeg/Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal."<br>• "Dinas lle gellir defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn llawn ar gyfer popeth."<br>• "Lle mae ddwy iaith ar gael fel cynnig cychwynnol yn hytrach nag fel gwasanaeth ychwanegol."<br>• "Cymraeg a Saesneg 50/50." |
| **Mynediad da i'r Gymraeg** | **99** | **21.8** | • "Lle gall pawb ac unrhyw un ddysgu i siarad Cymraeg."<br>• "Lle mae'r gallu i gyfnewid rhwng ieithoedd yn hawdd ac esmwyth yn ôl yr achlysur."<br>• "Un lle gellir cael gafael ar bob gwasanaeth yn gyfartal, yn y naill iaith neu'r llall."<br>• "Mae’n bosib cael mynediad at bob gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg." |
| **Does gen i ddim un** | **65** | **14.3** | • "Does gen i ddim gweledigaeth."<br>• "Does gen i ddim gweledigaeth o Gaerdydd Ddwyieithog."<br>• "Does gen i ddim barn benodol y naill ffordd na'r llall." |
| **Cyfathrebu/cael gwybodaeth yn yr iaith a ffefrir** | **65** | **14.3** | • "Lle mae staff a chwsmeriaid yn gallu sgwrsio'n rhydd a derbyn y wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn eu dewis iaith."<br>• "I'r opsiwn fod ar gael i unrhyw un sy'n dymuno ei ddefnyddio, ac i allu siarad yn gyfforddus yn eich dewis iaith." |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • "Gallu cyfathrebu ag unrhyw un yn eu dewis iaith." |
| **Y Gymraeg/diwylliant Cymreig wedi'u gwreiddio yng Nghaerdydd, busnes, gwasanaethau, arwyddion** | **57** | **12.6** | • "Gallu gofyn cwestiynau ac ymateb yn Gymraeg neu'n Saesneg. Y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal. Crewyr cynnwys yn ymwybodol o'r elfen ddwyieithog. Canran y bobl yng Nghymru sy'n defnyddio'r iaith yn ddyddiol i godi. Adolygu'n barhaus y ffyrdd o hwyluso defnydd cynyddol o'r Gymraeg."<br>• "Lle mae 'na bontio di-dor rhwng y ddwy iaith. Lle mae'r gwasanaethau y gofynnir amdanynt yn Gymraeg yn norm, nid yn eilradd."<br>• "Bod pobl Caerdydd yn cofleidio dwyieithrwydd ac yn falch o'r iaith a'r diwylliant Cymru. Bod busnesau'n cynnig gwasanaethau'n ddwyieithog a bod y Ddinas yn cael ei hadnabod fel Prifddinas lle mae gan y ddwy iaith statws cyfartal." |
| **Dewis personol** | **33** | **7.3** | • "Rwy'n dal i gredu mewn dewis i holl drigolion ac ymwelwyr Caerdydd, tra'n parhau i annog a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg."<br>• "Un lle mae fy newis i beidio siarad Cymraeg yn cael ei barchu." |
| **Sylwadau cadarnhaol** | **33** | **7.3** | • "Rwy'n teimlo bod ei hangen yn bendant, ac rwy'n cefnogi'r strategaeth yn llawn. Fel rhywun nad oedd yn hyderus yn y Gymraeg, roeddwn yn falch fy mod wedi mynychu hyfforddiant Mynediad Lefel 1 i wella fy sgiliau Cymraeg, ac rwy'n annog unrhyw un i fynychu'r hyfforddiant hwn."<br>• Gwych, bydd unrhyw lefel o Gymraeg yn annog cymuned gynhwysol." |
| **Sylwadau negyddol** | **27** | **5.9** | • "Dydw i ddim yn siŵr bod hyn yn bosibl."<br>• Er ei bod yn bwysig cynnal y Gymraeg - mae'n creu gormod o rwystrau afresymol wrth geisio darparu gwasanaeth da a theg i bawb o bob cenedligrwydd." |
| **Llai o ragfarn i'r rhai sydd ond yn siarad un iaith** | **22** | **4.8** | • "Fy ngweledigaeth i o Gaerdydd Ddwyieithog yw lle mae'r Gymraeg yn dod yn iaith bob dydd, ond dyw'r rhai sy'n methu siarad Cymraeg ddim yn cael eu difrïo."<br>• "Un lle nad oes rhagfarn y naill ffordd na'r llall i siaradwyr Cymraeg neu Saesneg, lle nad yw rhai cymunedau'n fwy arbennig neu â mwy o hawliau na'r lleill." |
| **Addysg yn ganolog** | **17** | **3.7** | • "Ysgolion dwyieithog = Caerdydd ddwyieithog." |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • "Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig rhoi mwy o bwyslais ar ddysgu Cymraeg mewn ysgolion Saesneg i'r pwynt lle mae disgyblion yn gadael yr ysgol os ydym wir eisiau Caerdydd ddwyieithog." |
| **Mae ieithoedd eraill yn cael eu siarad** | **14** | **3.1** | • "Mewn egwyddor byddai'n wych ond o ystyried yr amrywiaeth ethnig gallai ieithoedd eraill fod yn ddefnyddiol hefyd."<br>• "Rwy'n credu bod Caerdydd yn llawer mwy amlddiwylliannol ac amrywiol na dim ond y rhai sy'n siarad Cymraeg a Saesneg." |
| **Ni ddylid gorfodi pobl i ddysgu Cymraeg** | **13** | **2.9** | • "Does gen i ddim un. Dw i jyst ddim eisiau cael fy ngorfodi i ddysgu unrhyw Gymraeg. Dw i'n ddyslecsig iawn ac mae Saesneg yn ddigon o broblem."<br>• "Byddai'n braf siarad Cymraeg, ond oni bai bod cyfle i'w siarad yn rheolaidd ni fydd pobl yn cadw'r sgil nac yn gweld y budd o wneud hynny." |
| **Blaenoriaethau eraill pwysicach** | **7** | **1.5** | • "Yn bersonol rwy'n teimlo y gellid defnyddio'r arian mewn mannau eraill, h.y. Iechyd Meddwl neu'r GIG." |
| **Digon ar waith yn barod** | **3** | **0.7** | • "Rwy'n credu ein bod ni eisoes wedi'i chyflawni." |
| **Amr.** | **24** | **5.3** | • "Hoffwn i Gaerdydd ddwyieithog wneud i'r ddinas deimlo'n fwy cynhwysol a chroesawgar i'r genhedlaeth hŷn yn arbennig."<br>• "Mae'n anodd pan nad ydych chi'n dod o Gymru i ddysgu iaith nad yw'n cael ei defnyddio'n eang ar hyn o bryd. Mae'r Gymraeg yn cael ei chyflwyno mewn ysgolion, felly mae gan y bobl iau fwy o gyfleoedd i ddysgu."<br>• "Rwy'n credu yn y cysyniad ond gan fod Caerdydd yn ddinas gosmopolitan iawn... dwi'n credu y bydd yn wych i'r plant, ond i bobl hŷn fel fi mae braidd yn hwyr." |

*DS. Nid yw'r canrannau'n creu cyfanswm o 100% gan y gallai sylwadau ymatebwyr fod mewn themâu lluosog.*

# Atodiad B

| Thema | Nifer | % | Sylwadau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| **Mwy o gyllid/cymorth ar gyfer hyfforddiant yn y gwaith neu gartref** | **152** | **48.6** | • "Mwy o arian i ddarparu'r hyfforddiant, ond rhaid i'r hyfforddiant hwn fod yn wirfoddol."<br>• "Annog pob aelod o staff i fynychu cyrsiau Cymraeg i ddysgu'r iaith. Mae angen mwy o leoedd ar y cwrs ac mae angen i fwy nag un cwrs o bob math redeg ar yr un pryd. Felly, y cwrs lefel un ar ddydd Llun AM, dydd Mawrth PM, dydd Mercher AM, dydd Iau PM, dydd Gwener AM ac ati."<br>• "Gosod athrawon Cymraeg peripatetig mewn pob Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu haddysgu'n Gymraeg gan siaradwr Cymraeg cwbl hyderus, o leiaf unwaith yr wythnos, ochr yn ochr â gwersi Cymraeg ac ymarfer Gymraeg achlysurol dan arweiniad eu hathrawon dosbarth arferol."<br>• "Darparu cyrsiau Cymraeg am ddim i holl ddinasyddion Caerdydd."<br>• "Rhowch arian i gynnig hyfforddiant gydol oes." |
| **Mwy o ymwneud ag addysg / y genhedlaeth iau** | **71** | **22.7** | • "Gwneud buddsoddiadau i gefnogi dysgu Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar a chefnogi teuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg."<br>• "Cynnig mwy o gyrsiau ar lefel sylfaen, cefnogi pob ysgol a buddsoddi mewn dysgu'r Gymraeg yn ifanc!"<br>• "Sicrhau hyfforddiant i staff mewn ysgolion."<br>• "Ehangu'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg yn uchelgeisiol"<br>• "Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ystod plentyndod cynnar a thrwy gydol y blynyddoedd ysgol gorfodol, er mwyn sicrhau sylfaen gref o Gymraeg llafar o fewn y gymuned." |
| **Gwell hyrwyddo** | **34** | **16.9** | • "Cael gwersi/cyrsiau Cymraeg o ansawdd uchel am ddim ar wefan y Cyngor/YouTube - ar gael am ddim fel bod pawb yn gallu eu defnyddio i ddysgu i siarad Cymraeg ar lefel dechreuwr a chanolradd. Gair yr wythnos - defnyddiwch y cyfryngau cymdeithasol / bysus / hysbysfyrddau / negeseuon testun / e-bost - crëwch fwrlwm o gwmpas dysgu Cymraeg - gwnewch e'n cŵl."<br>• "Parhau i hybu a chynnig yr iaith ym mhob rhan o'i wasanaethau."<br>• "Marchnata'r fenter i sicrhau bod y neges yn cael ei chyflwyno i fwy o'r gymuned a gwerthu'r manteision o ddysgu'r iaith i unigolion." |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Annog staff i siarad Cymraeg yn ystod gwaith** | **34** | **16.9** | • "Cyflogi mwy o staff sy'n siarad Cymraeg. Annog defnydd ymarferol o'r Gymraeg mewn amgylchedd gwaith."<br>• "Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle."<br>• "Hyrwyddo sgyrsiau anffurfiol rhwng swyddogion i ddatblygu hyder dysgwyr a'r rhai sy'n brin o hyder." |
| **Hyfforddiant i fod yn wirfoddol** | **27** | **8.6** | • "Dydw i ddim yn credu bod gorfodi'r defnydd o'r Gymraeg yn ffordd effeithiol o dyfu'r iaith."<br>• "Cynnig ac annog, ond nid gorfodi."<br>• "Ni allwch orfodi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg - dylai iaith fod yn ddewis ac ni ddylai'r bobl hynny nad ydynt yn siarad Cymraeg fod o dan anfantais na chael eu cosbi am ddewis peidio â'i siarad." |
| **Cyflogi mwy o siaradwyr Cymraeg** | **20** | **6.4** | • "Cyflogi mwy o staff sy'n siarad Cymraeg. Annog defnydd ymarferol o'r Gymraeg mewn amgylchedd gwaith."<br>• "Cyflogi athrawon Cymraeg a siaradwyr Cymraeg mewn meysydd gwasanaeth eraill."<br>• "Cynyddu nifer y swyddi Cymraeg hanfodol o fewn y cyngor a gweithio gyda chyflogwyr y tu allan i'r cyngor i'w hannog i wneud yr un peth." |
| **Ddim yn gwybod** | **18** | **5.8** | • "Dydw i ddim yn gwybod."<br>• "Ddim yn siŵr iawn." |
| **Ei gwneud yn orfodol** | **10** | **3.2** | • "Hyfforddiant gorfodol i bob cwmni mawr ar ddefnyddio'r Gymraeg gyda hyfforddiant o'r radd flaenaf." |
| **Cymhellion i ddysgu** | **8** | **2.6** | • "Cynnig mwy o hyfforddiant iaith lafar. Cymell drwy ganiatáu amser i ffwrdd o'r swyddfa i gwblhau hyfforddiant. Rhaid i'r rhai sy'n manteisio ar hyfforddiant ddangos tystiolaeth o sut maen nhw wedi defnyddio'r Gymraeg yn eu rôl ddyddiol." |
| **Ddim yn bwysig** | **5** | **1.6** | • "Rwy'n credu bod blaenoriaethau pwysicach y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt na chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg." |
| **Cefnogi sefydliadau eraill** | **5** | **1.6** | • "Cynyddu nifer y swyddi Cymraeg hanfodol o fewn y cyngor a gweithio gyda chyflogwyr y tu allan i'r cyngor i'w hannog i wneud yr un peth." |
| **Amr.** | **53** | **16.9** | • "Sicrhau bod cyrsiau Cymraeg ar gael drwy gyfrwng sawl iaith. Mae gorfod cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac yna i drydedd iaith yn anodd. Gallai llwybr uniongyrchol o'r Ffrangeg i'r Gymraeg (er enghraifft) fod yn llawer haws oherwydd tebygrwydd mewn geiriau a strwythur brawddegau." |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • "Paru’r strategaeth hon gyda'r CSCA a sichrau bod pawb yn deall eu rhan yn y weledigaeth ac yn berchen ar y weledigaeth." |

*DS. Nid yw’r canrannau'n creu cyfanswm o 100% gan y gallai sylwadau ymatebwyr fod mewn themâu lluosog.*

DRAFT

## Atodiad C

| Thema | Nifer | % | Sylwadau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| **Cyflwyno mwy o hyfforddiant** | **81** | **26.9** | • "Rhoi mwy o gyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg ac annog rheolwyr i adael i weithwyr ddysgu."<br>• "Sicrhau mwy o hyfforddiant, a mwy o gyngor i'r di-Gymraeg ar beth i'w wneud os oes angen iddyn nhw gynnig gwasanaeth Cymraeg."<br>• "Hyfforddi mwy o staff yn y Gymraeg y tu allan i oriau gwaith - mae llwyth gwaith uwch a llai o staff yn golygu bod staff yn gorfod dewis rhwng syrthio ar ei hôl hi gyda'u gwaith a dysgu Cymraeg."<br>• "Cynyddu nifer staff y cyngor sy'n dysgu i siarad Cymraeg."<br>• "Sicrhau bod hyfforddiant Cymraeg yn rhan o Adolygiadau Personol. Cyflogi mwy o siaradwyr dwyieithog." |
| **Cyflogi mwy o siaradwyr Cymraeg** | **51** | **16.9** | • "Cyflogi mwy o siaradwyr Cymraeg (neu bobl sy'n fodlon dysgu) pan fydd swyddi'n dod yn wag."<br>• "Drwy gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg."<br>• "Annog pob gwasanaeth i sicrhau bod o leiaf 10% o'u staff yn siarad Cymraeg yn rhugl."<br>• "Creu gweithlu sy'n gallu cyfathrebu'n ddwyieithog. Arolwg o siaradwyr Cymraeg ar draws y gweithlu i benderfynu ar y cymorth sydd ei angen i gynnig gwasanaethau'n Gymraeg ar gais. Hyfforddiant i siaradwyr Cymraeg sydd efallai wedi colli hyder neu sy'n dymuno gwella eu sgiliau ysgrifenedig yn y Gymraeg."<br>• "Cyflogi mwy o siaradwyr Cymraeg." |
| **Gofynnwch i bobl am eu dewisiadau** | **45** | **15.0** | • "System RhCC (Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid) ar draws y Cyngor fyddai'r ffordd orau o wneud hyn, lle byddai pob defnyddiwr gwasanaeth yn cofnodi ei ddewisiadau iaith, sy'n cael eu cadw a'u cofio ar gyfer pob gohebiaeth yn y dyfodol."<br>• "Dylai sicrhau bod dinasyddion yn gallu cofrestru eu dewis iaith a derbyn gohebiaeth yn yr iaith honno YN UNIG, nid anfon gwybodaeth yn ddwyieithog yn awtomatig."<br>• "Drwy ofyn i ddinasyddion beth yw eu dewis iaith, a chofio eu dewis, a darparu gwybodaeth yn eu dewis iaith, yn hytrach na rhoi pethau dwyieithog i bawb." |
| **Angen hyrwyddo a gwneud mwy o ddefnydd o** | **41** | **13.6** | • "Cynyddu'r opsiynau cyfieithu - yn aml mae'n cymryd amser i gyfieithiadau gael eu dychwelyd sy'n gallu bod yn broblem." |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Caerdydd Ddwyieithog** | | | • "Gwnewch y cyhoedd yn fwy ymwybodol y gellir darparu gwasanaethau yn Gymraeg ac anogwch nhw i ddefnyddio'r gwasanaeth Cymraeg hyd yn oed os ydynt yn nerfus, h.y. Os ydynt yn ddysgwyr neu os yw eu hyder wedi'i golli wrth siarad Cymraeg. Mae Wenglish yn iawn. Drwy geisio defnyddio'r gwasanaeth byddwch yn ymarfer eich Cymraeg."<br>• "Dechreuwch hyrwyddo'r iaith yn yr ardaloedd sy'n anodd eu cyrraedd - ardaloedd tai cyngor, incwm isel ac ati - a rhoi'r gorau i ganolbwyntio ar yr 'elît metropolitan'". |
| **Ddim yn gwybod** | **27** | **9.0** | • "Dydw i ddim yn gwybod."<br>• "Ddim yn siŵr."<br>• "Dydw i ddim yn siŵr." |
| **Holl wasanaethau'r cyngor yn ddwyieithog** | **27** | **9.0** | • "Sicrhau bod pob gwasanaeth yn cael ei gynnig yn y ddwy iaith."<br>• "Cynnig pob gwasanaeth yn ddwyieithog."<br>• "Sicrhau bod HOLL wasanaethau'r Sir ar gael yn Gymraeg. Mae gwefan Gwasanaethau Addysg Caerdydd yn bell o'r nod hwn - flwyddyn ar ôl ei lansio mae'r rhan fwyaf o'r cynnwys yn parhau yn Saesneg." |
| **Cynnig mwy o gyfleoedd / cefnogaeth - digwyddiadau, llwyfannau ac ati** | **18** | **6.0** | • "Sicrhau bod yr holl ddysgu'n hygyrch ac yn gynhwysol i bawb - dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Nid oes un cwrs yn addas i bawb - gallai hyn wthio dysgwyr i ffwrdd yn gyfan gwbl. Cyllid ar gyfer ardaloedd mwy gwledig/tlotach i gael adnoddau i sicrhau lefel safonol o ddysgu - nid da mewn rhai ardaloedd a digonol mewn ardaloedd eraill. Trefnu digwyddiadau hwyl i annog dysgu a datblygu - dysgu drwy brofiad yw un o'r ffyrdd gorau o ddysgu felly os oes digwyddiadau "hwyl"/digwyddiadau trochi yna gallai hyn fod yn fuddiol iawn."<br>• "Sesiynau hyfforddi, apiau, diwrnodau dathlu." |
| **Digon ar waith yn barod** | **13** | **4.3** | • "Rwy'n credu ei fod yn gwneud digon nawr - rwy'n credu bod yr holl wasanaethau ar gael yn Gymraeg. Gellid gwneud cytundeb gyda chyngor fel Gwynedd, sbo, i roi rhai gwasanaethau ar gontract allanol os yw'r angen yn codi?" |
| **Cymell staff i ddysgu** | **11** | **3.7** | • "Canolbwyntio ar recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg a/neu gynnig mwy o gymhellion i weithwyr presennol ddysgu Cymraeg. Yn ymarferol yn fy adran i, mae'n aml yn arafach i gael ymateb os byddwch yn gwneud cais yn Gymraeg o gymharu â'r Saesneg." |
| **Mae 'na ieithoedd eraill** | **10** | **3.3** | • "Mae 'na ieithoedd eraill y mae mwy o bobl yn rhugl ynddynt." |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Angen adnoddau digonol** | **9** | **3** | • "Darparu'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r uchod." |
| **Nid yw'n flaenoriaeth** | **8** | **2.7** | • "Yn ariannol mae hyn yn anodd, ac mae materion pwysicach wedi codi'n ddiweddar o ran iechyd." |
| **Amr.** | **39** | **13** | • "Dylai'r Cyngor gomisiynu Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb annibynnol i ddeall y rhwystrau mewn cymunedau lle nad yw'r Gymraeg/Saesneg yn iaith gyntaf."<br>• "Parhau i fod yn sefydliad agored, cynhwysol ac amrywiol."<br>• "Mae angen iddi fod yn gymesur â'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd a chael ei diwygio i gyfateb i'r ganran hon - h.y. cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd yng Nghaerdydd a thyfu ein gallu i ateb y galw hwn." |

*DS. Nid yw'r canrannau'n creu cyfanswm o 100% gan y gallai sylwadau ymatebwyr fod mewn themâu lluosog.*

DRAFT

## Atodiad D

| Thema | Nifer | % | Sylwadau enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| **Cefnogi/cydweithio â phartneriaid/hyfforddiant/cyfieithu am ddim** | **47** | **23.7** | • "Cynnig help iddyn nhw. Cyfraddau is ar gyfer costau cyfieithu os ydynt yn hysbysebu canran o'u swyddi fel rhai Cymraeg hanfodol ac yn hyrwyddo'r ffaith eu bod yn cynnig gwasanaeth/busnes dwyieithog."<br>• "Cynnig mynediad i bartneriaid allanol i rai o'r cyrsiau Cymraeg sydd ar gael i staff y cyngor."<br>• "Addysg yn y gweithle gyda chyflogwyr mawr neu i ystadau diwydiannol i gwmnïau nad ydynt yn gallu ei fforddio. Addysgu peripatetig efallai." |
| **Mwy o Hyfforddiant/Dysgu Cymraeg** | **42** | **21.2** | • "Mae'n rhaid buddsoddi'n sylweddol mewn adnoddau hyfforddiant iaith, p'un a yw'r rhain yn cael eu datblygu'n fewnol neu wedi'u his-gontractio i drydydd parti."<br>• "Cynnig cyrsiau y tu allan i Gaerdydd - nid yw pob aelod o staff yn byw yn y ddinas neu'r cyffiniau."<br>• "Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a gweithredu'r newidiadau sy'n annog dysgu Cymraeg." |
| **Ddim yn gwybod** | **34** | **17.2** | • "Mae'n ddrwg gen i, dydw i ddim yn gwybod digon am bartneriaid allanol tebygol."<br>• "Dydw i ddim yn deall beth yw hyn na phwy fyddai'r partneriaid."<br>• "Dim o gwbl." |
| **Adolygiad yn cytuno ar ddull gweithredu yn y dyfodol** | **26** | **13.1** | • "Byddai'n fuddiol cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddi gyda phartneriaid i benderfynu a all gweithluoedd ddod ynghyd i ddatblygu lefelau iaith staff."<br>• "Adolygu agwedd partneriaid at iaith a diwylliant yn eu contractau a gwasanaethau sy'n delio'n uniongyrchol â chwsmeriaid."<br>• "Gweithio gydag awdurdodau lleol eraill i ddatblygu dull cyffredin a rhannu'r costau (arbedion maint)." |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwell hyrwyddo** | **22** | **11.1** | • "Hyrwyddo mwy o siaradwyr Cymraeg drwy'r cyfryngau, fel y cyfryngau cymdeithasol, gyda grwpiau ethnig sy'n dysgu, i'w galluogi i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd bob dydd."<br>• "Hyrwyddo, hyrwyddo, hyrwyddo." |
| **Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg - yn gyhoeddus** | **14** | **7.1** | • "Eisiau gweld pob gwasanaeth yn ddwyieithog, i weld y Gymraeg yn cael ei defnyddio ar bosteri, mewn tafarndai, ar fwydlenni, coctels, siopau fel Tesco, Sainsbury's, Aldi i gyd yn defnyddio geiriau neu ymadroddion Cymraeg fel bod yr iaith yn dod yn 'norm' neu'n 'normal newydd'". |
| **Ddim yn flaenoriaeth** | **12** | **6.1** | • "A bod yn onest, rwy'n teimlo yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni a gydag argyfwng ar y gweill yn y maes Gofal Cymdeithasol, yn ogystal â degawd o danariannu addysg a'r gwasanaeth iechyd, y gallai'r cyngor a Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r arian sy'n cael ei wario ar y Gymraeg yn well." |
| **Datblygu safon y cytunir arni** | **12** | **6.1** | • "Datblygu safon y dylai partneriaid allanol fod yn gweithio tuag ati yn barod neu ymrwymo i'w chyflawni o fewn cyfnod penodol o amser ar ôl llofnodi contract er mwyn cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i'r Cyngor. Er enghraifft, cynllun 'Safon y Ddraig' lle byddai angen i fusnesau fodloni gofynion penodol (a chael eu harchwilio) i ddefnyddio'r logo achrededig, fel gydag ISO, Buddsoddwyr Mewn Pobl ac ati." |
| **Gwneud y Gymraeg yn cŵl / y cyfryngau** | **12** | **6.1** | • "Y cyfryngau. Gwnewch e'n cŵl. Daliwch y dychymyg." |
| **Gwerthfawrogi cyfyngiadau/adnoddau** | **10** | **5.1** | • "Sicrhau eich bod yn ystyried yr adnoddau/adnoddau dynol sydd gan sefydliadau er mwyn sicrhau nad yw rhai partneriaid yn teimlo'r pwysau'n fwy nag eraill. Rhwydwaith cymorth parhaus i'r partneriaid hyn fel nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gadael i wneud yr holl waith. Sicrhau bod pob partner yn deall ac yn cyflwyno rhaglen hygyrch a chynhwysol." |
| **Dim Barn** | **8** | **4.0** | • "Does gen i ddim barn benodol y naill ffordd na'r llall." |
| **Angen cynnwys pob iaith** | **3** | **1.5** | • "Dylai fod digon o ystyriaeth i bob iaith yn yr hinsawdd bresennol, nid dim ond y Gymraeg." |
| **Amr.** | **26** | **13.1** | • "Daliwch ati i siarad â'r cyhoedd a cheisio eu barn."<br>• "Mae RTPI Cymru yn dysgu ac yn gwneud ymgynghoriadau cymunedol yn Gymraeg."<br>• "Mwy o waith gydag Asiantaethau Tai, nid Adran Dai'r cyngor yn unig. Estynnwch allan at eu tenantiaid nhw hefyd. Os yw tenantiaid y Cyngor yn derbyn gwasanaeth dwyieithog fel mater o drefn, pam ddim?" |

*DS. Nid yw'r canrannau'n creu cyfanswm o 100% gan y gallai sylwadau ymatebwyr fod mewn themâu lluosog.*

DRAFT

# Atodiad E – Partneriaid Caerdydd Ddwyieithog

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Rygbi Caerdydd
- Cyngor Trydydd Sector Caerdydd
- Prifysgol Caerdydd
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Cynrychiolwyr Ysgolion Uwchradd Cyfrwng Cymraeg Caerdydd
- Cynrychiolwyr Ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg Caerdydd
- Consortiwm Addysg Canolbarth y De
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Clwb Ifor Bach
- Y Dinesydd
- Llenyddiaeth Cymru
- Yr Eisteddfod Genedlaethol
- Menter Caerdydd
- Merched y Wawr
- Mudiad Meithrin
- Amgueddfeydd Cymru
- Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- S4C
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant
- Yr Urdd
- Canolfan y Mileniwm
- Comisiynydd y Gymraeg

DRAFT